

Crynodeb o'r amcanion

Cytunwyd ar yr amcanion rheoli canlynol er mwyn cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu:

- Arallgyfeirio cyfansoddiad rhywogaethau'r goedwig drwy hyrwyddo strategaeth ailstocio fwy amrywiol, a fydd yn cynnwys mwy o amrywiaeth o goed llydanddail cynhenid a chnydau conwydd cynhyrchiol.
- Gwella strwythur mewnol y goedwig drwy ddatblygu amrywiaeth dosbarth ac oedran, amrywiaeth o safbwynt meintiau coed a chymysgedd o rywogaethau o fewn clystyrau.
- Arallgyfeirio mathau o goetir o fewn y goedwig, drwy gynyddu'r amrywiaeth o goetir coed conwydd ac ehangu cynefinoedd coetir cynhenid a thorlannol, a fydd yn helpu i wella cysylltedd o fewn y goedwig a darparu cyfleoedd ar gyfer cysylltu â rhwydweithiau coetir y tu allan i'r goedwig yng Nghwm Hirnant ac o amgylch Llyn Tegid.
- Cael gwared ar unrhyw larwydden sydd wedi'i heintio gan *Phytophthora ramorum* a chynllunio ar gyfer gwaredu yn y pen draw yr ardaloedd â nifer sylweddol o goed llarwydd sy'n weddill o dan y Strategaeth Lleihau Coed Llarwydd.
- Cynnal hyfywedd masnachol hirdymor y goedwig, drwy gynllunio cyflenwad cynaliadwy o bren. Gwella ansawdd pren ac arallgyfeirio cynhyrchion i farchnadoedd mwy lleol.
- Buddsoddi mewn seilwaith coedwig i ddarparu gwell mynediad i alluogi mwy o systemau coedamaeth bach eu heffaith a gwaith rheoli teneuo coed.
- Diogelu'r llwybrau cludo pren presennol ac archwilio llwybrau mynediad ymarferol i flocciau coedwig ynysig yng Nghwm Hirnant.
- Creu strwythur coedwig ac ecosystem barhaol ac amrywiol sy'n cynnwys coetir cynhenid a thorlannol, gwarchodfeydd naturiol a choed sy'n cael eu cadw ar gyfer yr hirdymor, gyda mwy o goetir olynol a chynefinoedd agored ar hyd ffyrdd coedwig a rhodfeydd lle y gall prosesau naturiol ddigwydd.

- Cynyddu swm y prennau marw yn y goedwig, sy'n cefnogi bywyd amrywiol yn ecosystem y goedwig.
- Rheoli'r ffin rhwng y goedwig ac Ardal Cadwraeth Arbennig/Ardal Gwarchodaeth Arbennig y Berwyn a De Clwyd er budd ac amodau ffafriol rhostir sych a chynefinoedd gorgors ac adar gwarchodedig gan gynnwys adar ysglyfaethus a'r Grugiar Ddu. Ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer rheoli fel clustogfeydd coetir olynol cynhenid i leihau effaith coed conwydd sy'n hadu ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig.
- Ehangu'r rhwydwaith coetir torlannol sy'n bodoli eisoes i ddarparu gwell dull clustogi yn erbyn gweithrediadau cynaeafu ac i helpu i wella ansawdd dŵr mewn ecosystemau dŵr croyw.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wrth gynnal gweithgareddau gweithredol trwy ddilyn yr arfer gorau fel y'i nodir yn 'Safon Coedwigaeth y DU – Canllawiau Coedwigaeth a Dŵr' i warchod ansawdd y dŵr a'r ecosystemau dŵr croyw yn y goedwig.
- Cynllunio llennyrch cwmpo coed llai a defnyddio systemau coedamaeth bach eu heffaith lle y bo'n bosibl, er mwyn helpu i leihau'r effaith ar ansawdd dŵr yn ardal ehangach prosiect LIFE afon Dyfrdwy, drwy leihau'r risg o waddodi, llifau brig, yn ogystal â lleihau effeithiau gweledol ar y dirwedd.
- Adfer pob safle coetir hynafol trwy ddileu coed conwydd yn raddol dros gyfnod, gan ddefnyddio systemau coedamaeth bach eu heffaith a gwaith rheoli teneuo coed lle bo'n bosibl.
- Gwarchod pob heneb a nodweddion hanesyddol wrth gynnal gweithrediadau rheoli coedwigoedd.
- Ystyried yr effeithiau gweledol ar weithrediadau rheoli a chynigion hirdymor ar olygfeydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.
- Gwella gwerth cynefin tirwedd, synhwyrdd a gweledol y goedwig trwy gynyddu coetir cynhenid ar hyd Cwm Hirnant a Chwm y Glyn.
- Cynnal llwybrau a chyfleusterau hamdden sy'n bodoli eisoes yn y goedwig.
- Cynnal a gwella cyfleoedd ar gyfer defnydd parhaus o ffyrdd coedwig a hawliau tramwy cyhoeddus gan gynnwys llwybrau eraill o fewn y goedwig, ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogwyr.

- Cynnal hawliau tramwy cyhoeddus y mae gweithrediadau cynaeafu yn effeithio arnynt, megis cwmpo, teneuo ac ailstocio coed.
- Ymchwilio i gyfleoedd i gydweithio â thirfeddianwyr cyfagos, rhanddeiliaid ac ar brosiectau megis 'prosiect LIFE afon Dyfrdwy' er mwyn datblygu blaenoriaethau a chynlluniau a fydd yn gwella gwydnwch hirdymor a chysylltedd yr ecosystemau yn y dirwedd ehangach.
- Parhau i archwilio'r potensial am brosiectau ynni dŵr bach fel sydd yng Nghwm Hesgen.